O Walia i Washington: Rhaglen Gyfnewid Beirniaid Celfyddydau Cymru

Cyhoeddiad

Rhaglen *Visiting Arts* a reolir mewn partneriaeth â Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru a'r Cyngor Prydeinig, a'i chefnogi fel rhan o weithgareddau Cymru yn Washington, DC gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Beth yw hi?
Bydd y rhaglen gyffrous hon yn dod ag awduron a newyddiadurwyr o Gymru at ei gilydd ynghyd â'u cymheiriaid yn Washington, DC. Bydd y gweithdai dwys, sydd wedi'u bwriadu i helaethu'r sylw a roddir i'r celfyddydau yng Nghymru a thrafodaeth feirniadol arnynt, yn datblygu galluoedd beirniadol y cyfranogwyr. Bydd hyn yn arwain at fwy o drafodaeth feirniadol ar y celfyddydau yng Nghymru ynghyd â mwy o sylw iddynt mewn print, darlledu a'r cyfryngau newydd. Y man cychwyn i hyn fydd rhoi sylw i weithgarwch Cymru yn Washington, DC.

Bydd y rhaglen hefyd yn cwmpasu dwyieithrwydd gan ddarparu cyfleoedd newydd i drafodaeth ryngwladol ar ffurfiau ar gelfyddyd yng Nghymru, wrth ddatblygu perthynas rhwng y cyfryngau yng Nghymru a Gogledd America.

Yn ystod y rhaglen, bydd amser yn cael ei dreulio yng Nghymru a Washington, DC, gyda chyfranogwyr yn mynychu gweithdai ysgrifennu, yn ymweld ag orielau ac yn mynychu amrywiaeth o berfformiadau. Byddant yn ysgrifennu adolygiadau, yn trafod eu gwaith â'i gilydd ac yn archwilio rôl y beirniad celf. Arweinir y cwrs gan Linda Christmas, cyn-newyddiadurwraig gelf ac athrawes brofiadol ym maes newyddiaduriaeth. Beirniaid sefydledig ym myd y celfyddydau ar bob ochr i'r lwerydd fydd yn tiwtora'r gweithdai.

Cafodd Alison MacAdam, cyfranogwraig o Washington, DC, a fu'n mynychu Rhaglen Gyfnewid Beirniaid Celfyddydau rhwng Gogledd Iwerddon a Washington, DC, yn 2007, fudd mawr o'i phrofiad ar y cwrs hwn:

"Dw i ddim wedi clywed am unrhyw raglenni [cyfnewid] eraill ar gyfer darpar feirniaid ifainc, ac mae'r cwrs hwn wedi rhoi'r dewrder a'r dulliau i mi i fynd ati i ymhél â beirniadaeth."

Dyddiadau'r Rhaglen
Bydd y rhaglen yn cynnwys dau weithdy, y cyntaf yng Nghymru rhwng 24 a 30 Mai 2009, a'r ail weithdy yn cael ei gynnal yn Washington, DC rhwng 23 a 29 Mehefin 2009.

Nifer y lleoedd
Bydd tri awdur fan leiaf o Gymru'n cael eu dewis a'u partneru â thri awdur o Ogledd America. Bydd y dewis yn cael ei wneud ar sail darn o ysgrifennu beirniadol a gyflwynir gan ymgeiswyr (am fanylion llawn gweler isod).

Costau'r rhaglen
Bydd costau lleoliadau'n cael eu talu gan drefnwyr y rhaglen, a byddant yn cynnwys hediadau rhyngwladol dwyffordd (rhwng Washington, DC a'r DU), llety, lwfans cynhaliaeth a mynediad i'r holl ddigwyddiadau sy'n ffurfio rhan o'r gweithdy.

Pwy sy'n Gallu Gwneud Cais?

- Mae'r rhaglen yn chwilio am egin-awduron a newyddiadurwyr sy'n byw yng Nghymru ac yng Ngogledd America sydd â diddordeb neu sy'n cymryd rhan mewn beirniadaeth gelf.
- Rhaid i ymgeiswyr allu dangos diddordeb yn y ffurfiau ar gelfyddyd a gynhwysir yn y rhaglen, sef, llenyddiaeth, celf weledol, celfyddydau perfformio a ffilm. Mae'r rhaglen yn ymwneud â lledaenu 'beirniadaeth gelf' yn hytrach na beirniadu ffurf benodol ar gelf.
- Bydd y rhaglen yn gyfranogol iawn ac mae'n rhaid i gyfranogwyr ddod yno yn barod i gymryd rhan mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau o weithdai a thrafodaethau rhyngweithiol, i ymweld â safleoedd ac ysgrifennu adolygiadau.
- Rhaid i ymgeiswyr allu ymrwymo i'r ddau set o ddyddiadau: 24 - 30 Mai 2009 yng Nghymru; a 23 – 29 Mehefin 2009 yn Washington, DC.

Sut i Wneud Cais
Dylai unigolion sydd â diddordeb lawrlwytho'r ffurflen gais oddi ar www.visitingarts.org.uk. Bydd y dewis ar sail darn o ysgrifennu beirniadol a gyflwynir gan yr ymgeisydd, yn ogystal ag adroddiad ar y rheswm pam y dewiswyd y darn o waith hwnnw i'w adolygu. Rhaid i ymgeiswyr hefyd gyflwyno CV/crynodeb. Gwneir y dewis gan banel sy'n cynnwys rhanddeiliaid y rhaglen ac awduron proffesiynol. Ceir manylion llawn a ffurflen gais ar wefan *Visiting Arts*.

Dylid anfon ceisiadau at Sioned Hughes, Rheolwraig Datblygu Proffesiynol yn *Visiting Arts* (e-bost:sioned.hughes@visitingarts.org.uk)

Dyddiad Cau i Wneud Cais
Rhaid i geisiadau gael eu derbyn erbyn 12 canol dydd GMT 20 Ebrill 2009.

Gwybodaeth bellach:

Visiting Arts
Diben *Visiting Arts* yw cryfhau dealltwriaeth ryngddiwylliannol trwy'r celfyddydau.

Rydym yn darparu hysbysrwydd a gwybodaeth er mwyn cryfhau deialog a dealltwriaeth ryngddiwylliannol; creu cyfleoedd i artistiaid i archwilio cysylltiadau a diwylliannau newydd; ehangu sgiliau a gwybodaeth cyfranogwyr diwylliannol presennol a'r rhai sy'n dod i'r fei ar gyfer amgylchedd amrywiol a chynaliadwy i'r celfyddydau.

Ymhlith pethau eraill, rydym yn cynhyrchu ac yn dosbarthu ein e-gylchlythyr misol di-dâl, taflenni cymorth, briffiau wedi'u targedu a'r cyngor diweddaraf trwy brint, y we a chyfarfodydd wyneb yn wyneb; yn sefydlu ac yn meithrin cyfleoedd i gyfnewidiau artistiaid sy'n torri tir newydd, ac yn cyfrannu at rai o wyliau mwyaf a mwyaf arloesol y byd; yn trefnu ac yn cynnal rhaglenni hyfforddi, gweithdai yn y DU, ymweliadau â gwledydd tramor, digwyddiadau rhwydweithio, lleoliadau gwaith, preswyliadau a chydweithrediadau.
www.visitingarts.org.uk

Celfyddydau Rhyngwladol Cymru
Partneriaeth rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Cyngor Prydeinig yw Celfyddydau Rhyngwladol Cymru. Rydym yn hwyluso gwaith rhyngwladol yn y celfyddydau trwy gydweithrediadau, prosiectau, rhwydweithiau a chyfathrebu.

Diben Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yw gosod celfyddydau a diwylliant cyfoes Cymru ar lwyfan y byd gan ddarparu cyd-destun rhyngwladol i'r celfyddydau yng Nghymru.

Mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru'n bodoli i ddarparu seilwaith sy'n creu, yn hyrwyddo ac yn cyflenwi rhaglen o weithgareddau a phrosiectau sy'n buddsoddi mewn celfyddydau o safon o Gymru yn rhyngwladol ac yn eu datblygu.

Mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru nid yn unig yn sicrhau bod allbwn artistig a diwylliannol Cymru'n cael ei werthfawrogi gan gynulleidfa mor eang ag sy'n bosibl, ond hefyd yn chwarae ei ran wrth ddatblygu gwell dealltwriaeth rhwng pobl yn y DU a'r rheini mewn gwledydd eraill trwy ddeialog ryngddiwylliannol, cyfnewidiau a chydweithrediadau artistig.
www.wai.org.uk

Y Cyngor Prydeinig
Sefydliad rhyngwladol y Deyrnas Unedig ar gyfer cysylltiadau diwylliannol a chyfleoedd addysgol yw'r Cyngor Prydeinig. Rydym yn gweithio i feithrin y cydweithrediad hirdymor sydd ei angen am fyd mwy diogel a chysylltiedig. Trwy gryfhau ymddiriedaeth a dealltwriaeth rhwng gwledydd a diwylliannau rydym yn meithrin parch a deialog gan greu cyfleoedd i unigolion i gyflawni eu

potensial. Mae ein gwaith ynglŷn â chysylltiadau diwylliannol yn gwneud gwahaniaeth ymarferol i fywydau pobl yn y DU a ledled y byd.
www.britishcouncil.org

Gweithgareddau Cymru yn Washington
Mae Rhaglen Gyfnewid Beirniaid Celfyddydau Cymru'n un o nifer o wahanol weithgareddau a drefnir gan amrywiaeth o sefydliadau sy'n bartneriaid yn Washington, DC a'i chyffiniau dros y misoedd sydd ar ddod, yn rhan o sioe arddangos gyffrous o gelfyddydau Cymru. Mae hon yn adeiladu ar ymddangosiad Cymru fel un o'r cenhedloedd sy'n cael eu cynnwys yng Ngŵyl Bywyd Gwerin Smithson 2009. Yn ystod yr ŵyl, bydd dros 100 o gyfranogwyr yn cynrychioli Cymru mewn ardal sydd dros faint pedwar maes pêl-droed ar y *National Mall* yng nghanol Washington, DC dros yr wythnosau o gwmpas gŵyl 4 Gorffennaf.
www.wales.com/smithsonian

Gŵyl Bywyd Gwerin Smithson
Mae Gŵyl Bywyd Gwerin Smithson yn ŵyl ddiwylliannol, flynyddol a drefnir gan Ganolfan Bywyd Gwerin a Threftadaeth Ddiwylliannol Smithson, uned ymchwil ac addysgol Sefydliad Smithson. Eleni, fe'i cynhelir rhwng 24 a 28 Mehefin a 1 a 5 Gorffennaf 2009.
www.folklife.si.edu/index.html